**Disgrifiad Swydd: Swyddog Ymchwil a Gwyddonydd Data**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | **Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd** |
| **Adran/Pwnc:** | **Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe** |
| **Cyflog:** | **Gradd 8: £39,355 i £45,413 y flwyddyn ynghyd â buddion pensiwn USS** |
| **Oriau gwaith:** | **Amser llawn (35 awr yr wythnos)** |
| **Nifer y swyddi:** | **1** |
| **Contract:** | **42 mis** |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Singleton. |

**Prif Ddiben y Swydd**

Bydd y Swyddog Ymchwil a'r Gwyddonydd Data yn rhan o Hyb CHILI. CHILI yw'r byrfodd ar gyfer *Child and adolescent Health Impacts of Learning Indoor environments under net zero*. Mae CHILI yn grŵp o ymchwilwyr o wahanol gefndiroedd, gan gynnwys peirianneg, iechyd y cyhoedd, meddygaeth glinigol, ymchwil iechyd meddwl ac addysg, sy'n gweithio ar y cyd i sicrhau bod addysg plant yn cael ei chefnogi a'i gwella wrth i adeiladau ysgolion a meithrinfeydd gael eu gwneud yn amgylcheddol gynaliadwy. Mae CHILI yn un o saith hyb ymchwil drawsddisgyblaethol sy'n archwilio ffyrdd o sicrhau bod trawsnewidiad y DU i sero net hefyd yn diogelu ac yn hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol. Ariennir yr hybiau gan Ymchwil ac Arloesi'r DU (UKRI) a'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR), ceir rhagor o wybodaeth yma: https://www.ukri.org/news/42m-funding-to-ensure-health-is-central-to-net-zero-strategies/ Ymhlith y sefydliadau sy'n arwain CHILI mae: Coleg Prifysgol Llundain, Coleg Imperial Llundain, Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain, Prifysgol Abertawe, Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, Prifysgol Leeds, Sefydliad yr Amgylchedd Stockholm a Phrifysgol Caerefrog.

1. Gweithio gyda data ar raddfa fawr (yn enwedig mewn amgylcheddau ymchwil dibynadwy ac Amgylcheddau Data Diogel ar draws y DU, megis Banc Data SAIL), datblygu data cysylltiedig ar gyfer cynnal dadansoddiad sy'n ateb cwestiynau ymchwil pwysig.
2. Defnyddio SQL ac ieithoedd ymholi eraill mewn systemau cronfeydd data ac arbenigedd mewn dulliau a thechnegau cysylltu cofnodion.
3. Caffael a deall data newydd, gan sicrhau bod yr holl ofynion llywodraethu gwybodaeth perthnasol yn cael eu bodloni ac y glynir wrthynt (yn enwedig er mwyn eu defnyddio a'u cynnwys mewn amgylcheddau ymchwil dibynadwy ac amgylcheddau data diogel). Arwain trafodaethau â sefydliadau sy'n darparu data, neu gymryd rhan yn y trafodaethau hyn, gan sicrhau bod mesurau diogelwch a llywodraethu yn cael eu dilyn.
4. Cydweithio â chydweithredwyr ac ymchwilwyr eraill i gynorthwyo wrth droi cwestiynau ymchwil yn atebion ac yn ddatblygiadau priodol.
5. Cefnogi a/neu hyfforddi cydweithredwyr, a all fod â lefelau amrywiol o brofiad blaenorol neu sgiliau, i'w galluogi i gynnal eu hymchwil. Cymryd cyfrifoldeb am drosglwyddo gwybodaeth rhwng rhanddeiliaid o sefydliadau a disgyblaethau gwahanol.
6. Ymgymryd â gwaith dadansoddi data cymhleth a strwythuredig, gan ymdrin yn briodol â data dyblyg, data sydd ar goll a data gwallus. Llunio metadata a dogfennaeth ar gyfer unrhyw baratoadau data newydd a gwblhawyd. Dogfennu unrhyw benderfyniadau neu ddatblygiadau methodolegol sy'n arwain at ysgrifennu adroddiadau cysylltiedig a chyfraniadau at lunio allbynnau.
7. Datblygu dulliau rheoli data a dadansoddi data ystadegol, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a rhannu arferion da ymhlith cydweithredwyr. Mae defnyddio prosesau rheoli fersiynau a dogfennau priodol yn cyfrannu at ddysgu a datblygu ar y cyd drwy rannu sgriptiau a chodau wedi'u datblygu, dulliau dadansoddol a dogfennaeth gysylltiedig.
8. Cyfrannu at ddehongli canfyddiadau prosiectau a llunio allbynnau prosiectau, gan gynnwys adroddiadau, cyhoeddiadau a cheisiadau am grantiau, neu gyfrannu at y gwaith hwn.
9. Cymryd rhan yn holl gyfarfodydd perthnasol prosiectau a chyfrannu atynt. Hefyd, cynrychioli'r sefydliad drwy fynd i gyfarfodydd a rhoi cyflwyniadau mewn cyfarfodydd, digwyddiadau a chynadleddau.

| | |
|---|---|
| | 10. Gan weithio'n annibynnol, rheoli'r gwaith o gwblhau gweithgareddau personol a gweithgareddau'r prosiect i fodloni terfynau amser heb angen cael eich goruchwylio o ddydd i ddydd, ond gan nodi risgiau a gofyn cwestiynau yn ôl yr angen.<br>11. Cymryd rhan mewn gweithgareddau eraill, ac ymgymryd â gweithgareddau, sy'n briodol i'ch profiad a'ch sgiliau, gan reoli disgwyliadau o ran cyflawni prosiectau, hyfforddiant a gweithgarwch cyffredinol y rôl. |
| **Dyletswyddau cyffredinol** | 12. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>13. Cyflawni'r swydd a'r holl weithgareddau'n unol â pholisïau iechyd a diogelwch a chynaliadwyedd a systemau rheoli, er mwyn lleihau'r risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o weithgareddau'r gwaith.<br>14. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>15. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br>1. PhD pwnc perthnasol neu brofiad cyfwerth.<br>2. Tystiolaeth o'r gallu i ysgrifennu a chyhoeddi allbynnau ymchwil a chyfrannu at y gwaith hwn (gan gynnwys adroddiadau a chyhoeddiadau mewn cyfnodolion a adolygir a chrynodebau i gynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain).<br>3. Profiad o gynllunio ymchwil a/neu gyfrannu at ddatblygu ceisiadau am gyllid ymchwil allanol, gan gynnwys ysgrifennu a threfnu ceisiadau.<br>4. Tystiolaeth o brofiad a sgiliau ym maes rheoli prosiect ymchwil, gan gynnwys gweithio'n annibynnol i reoli gweithgareddau dadansoddi, ymchwil a gweinyddol i fodloni dyddiadau cau prosiectau.<br>5. Tystiolaeth o'r gallu i drin, dadansoddi a chrynhoi data mewn iaith raglennu, gan gadw data ar gronfa ddata berthynol drwy Iaith Ymholiadau Strwythuredig (SQL).<br>6. Tystiolaeth o sgiliau rheoli data a dogfennau, gan gynnwys datblygu a chynnal data ymchwil, rheoli fersiynau cysylltiedig a dogfennaeth/metadata.<br>7. Dealltwriaeth o ddefnyddio data ar gyfer ymchwil, gan gynnwys meddu ar brofiad o sgiliau rhaglennu gyda meddalwedd ystadegol, megis R neu Python.<br>8. Profiad o weithio gyda "data mawr" cysylltiedig ar raddfa fawr, ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn ddelfrydol.<br>9. Tystiolaeth o sgiliau wrth ddefnyddio technegau a dulliau delweddu data i greu allbynnau ymchwil a chyfleu canfyddiadau i gynulleidfaoedd amrywiol.<br>10. Profiad o waith dadansoddi ystadegol (gan gynnwys dulliau a thechnegau dadansoddi priodol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, megis ystadegau disgrifiadol, dulliau dadansoddi goroesiad, modelau llinol cyffredinol a metaddadansoddi, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain).<br>11. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys parodrwydd i feithrin arbenigedd ym maes gwyddor data, gwybodeg a disgyblaethau cysylltiedig.<br>12. Sgiliau cyfathrebu ardderchog ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>**Meini Prawf Dymunol**<br>13. Profiad o ddefnyddio data amgylcheddol cysylltiedig<br>14. Dealltwriaeth o dermau codio clinigol a'u defnydd yn y GIG.<br>15. Profiad o oruchwylio myfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig neu brosiectau/gydweithredwyr allanol (neu debyg). |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Lefel 1 – 'ychydig' – ynganu geiriau Cymraeg Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion pob dydd syml iawn (diolch, os gwelwch yn dda, etc.). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

| Gwybodaeth Ychwanegol | Ymholiadau anffurfiol: Yr Athro Rich Fry (r.j.fry@abertawe.ac.uk), Dr Amy Mizen (a.r.mizen@abertawe.ac.uk) |
| --- | --- |

Athena SWAN Silver Award
ECU Gender Charter

Stonewall Cymru
DIVERSITY CHAMPION

HR EXCELLENCE IN RESEARCH